



# LLYTHRENNEDD AMLIEITHOG

Prosiect Ysgol Proffesiynol  
Ysgol Gyfun Gŵyr 2015-2018



AWDUR YR ADRODDIAD : Janette Davies, Ysgol Gyfun Gŵyr. Anna Vivian Jones ERW.

## CRYNODEB

- Mae'n bleser gan Ysgol Gyfun Gŵyr gyflwyno'r ddogfen hon yn dilyn prosiect tair blynedd fel Ysgol Ddysgu Broffesiynol ar gyfer Llythrennedd Amlieithog yn ERW. Penllanw proses o dreialu syniadau, adolygu datblygiad ac addasu cynnwys ydyw'r prosiect hwn.
- Cynllunir y ddogfen hon fel **canllaw cam wrth gam** i weithredu'r prosiect ar draws adrannau ieithoedd mewn ysgol. Mae'r prosiect yn benllanw cydweithio rhwng yr holl adrannau iaith, Cymraeg, Saesneg ac ITM, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y dysgwyr. Gan fod yr holl ieithoedd i'w dysgu gyda'i gilydd fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o fewn Cwricwlwm Newydd i Gymru, ystyrir y pecyn hwn yn adnodd defnyddiol ar gyfer athrawon.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys enwau'r ystod o ffeiliau angenrheidiol er mwyn cael **mynediad i wersi parod** sydd wedi'u hysgrifennu gan y tîm awduraeth ac sydd wedi'u treialu yn YGG. Mae'r holl wersi yn cynnwys Pwerbwynt o'r wers, cynllun gwers a thaflen disgybl. Maent wedi'u cynllunio i annog dysgwyr i fod yn weithredol o fewn eu dysgu, ac i archwilio ac adeiladu ar gysylltiadau rhwng ieithoedd. Ceir esboniad o sail resymegol pob gwers, ynghyd a'i rôl o fewn y prosiect cyflawn.
- Mae cysyniadau ar gyfer datblygu'r gwaith o fewn cyd-destunau Daearyddiaeth, Hanes, Gwyddoniaeth a Mathemateg wedi'u cynnwys.
- Gellir gweithredu'r rhaglen yn unol â threfn YGG, sydd wedi'i chynnwys fel amserlen, neu ei haddasu i ddatblygu elfennau penodol. Ceir cyfeiriadau at agweddau y gellir eu datblygu ymhellach o fewn y ddogfen.
- Mae'r gwersi wedi'u cynllunio i'w gweithredu o fewn ysgol cyfrwng Cymraeg, ond gellir eu haddasu i'w dysgu mewn sefydliad di-gymraeg [enghraifft wedi'i chynnwys yn CAM2B Elfennau Iaith/Parts of Speech]
- Wedi cyrraedd diwedd y broses, daw i'r amlwg nad oes unrhyw elfen yn gwbl newydd neu'n wreiddiol. Deillia'r arloesedd o gydblethu elfennau i greu cyfres o wersi systematig a rhesymegol, gyda'r dysgwr yn y canol. Mae hyn wedi'i brofi i gael effaith gadarnhaol ar bob math o ddysgwyr, o alluoedd a chefnidiroedd ieithyddol amrywiol.
- Noda gwerthusiad byr o'r prosiect, gan fyfyrwraig o Brifysgol Caerdydd, i lais y disgybl ac arsylwadau gwersi bod y dull hwn yn cynnig mynediad i bawb i ddysgu iaith, a bod ganddo'r potensial i newid addysgu a dysgu iaith yng Nghymru.

## Cynnwys

<b>Tudalen</b>	<b>Cynnwys</b>
<b>1</b>	<b>Crynodeb</b>
<b>3-4</b>	<b>Cyflwyniad a Chyd-destun</b>
<b>5</b>	<b>Crynodeb o strwythur addysgu'r modiwl</b>
<b>6</b>	<b>Manylion cyflwyno ac amserlenni'r modiwl Delivery and timetabling of the module</b>
<b>7</b>	<b>Cam 1 – gwers 1</b>
<b>8</b>	<b>Cam 1 – gwers 2</b>
<b>9 -10</b>	<b>Cam 2A – rhagddodiaid. 4 gwers</b>
<b>11 - 12</b>	<b>Cam 2A – olddodiaid</b>
<b>13</b>	<b>Cam 2A – gwreiddiau geiriau, geiriau cymysg, geiriau cyfansawdd</b>
<b>15</b>	<b>Cam 2 B – elfennau iaith</b>
<b>18</b>	<b>Cam 2B - enwau</b>
<b>19</b>	<b>Cam 2B – berfau a rhagenwau personol</b>
<b>20</b>	<b>Cyfranwyr y prosiect a diolchiadau</b>

## Y PROSIECT AMLIEITHOG - CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

### 1. Caffaeliad iaith

- Mae pawb wedi caffael iaith ar ryw adeg yn eu bywydau, yn cynnwys eu mamiaith neu'r 'iaith gyntaf', serch hynny mae iaith yn sgil sydd ar y cyfan yn cael ei caffael heb fyfyrion ar **sut** y digwydd hynny. Fel plentyn ifanc mae'r broses o gaffael iaith yn un sydd yn digwydd yn naturiol reswm i'w chwestiynu.
- Wrth ymgeisio'n ymwybodol i ddatblygu'r iaith/ieithoedd yr ydym yn siarad, neu ddechrau dysgu ieithoedd ychwanegol, mae ymwybyddiaeth weithredol o sgiliau a strategaethau yn ein galluogi i ddatblygu'n gyflymach ac yn fwy effeithiol. Oblegid hynny, ynghyd â dysgu iaith gellir dysgu **am** ieithoedd.

### 2. Pam fod angen gwella?

Mae iaith yn allweddol i fywyd bob dydd ac i addysg. Oblegid hyn, mae gan allu ieithyddol ddylanwad uniongyrchol ar lwyddiannau person o safbwynt y gorffennol, presennol a'r dyfodol. O fewn addysg, mae ieithoedd brodorol [Cymraeg, Saesneg] yn tueddu i gael eu hystyried fel pynciau unigol o fewn cwricwlwm, heb ystyriaeth i'r pŵer sydd ganddynt i ddylanwadu ar lwyddiant **pob** pwnc a berthyn i'r cwricwlwm. Wyneba dysgwyr tri dull neu fwy parthed dysgu iaith, fel y diffinnir gan yr adran ieithoedd, yn hytrach nag un dull cyffredin a fyddai o fudd i'r dysgwyr.

### 3. Cefndir y prosiect

Rhoddodd waith blaenorol yn seiliedig ar lythrennedd drifflyg, yn enwedig gan CILT Cymru, ddechreuad cadarn i'r prosiect. Fodd bynnag, cefnwyd ar y term 'trifflyg' wrth weld a sylwi ar lawer o agweddau cyffredin sydd rhwng sawl iaith. Penderfynwyd felly ar y term **llythrennedd amlieithog**.

## CYMHWYSIAD

### 4. I bwy mae'n berthnasol?

Wrth i dirwedd diwylliannol Cymru dyfu'n fwyfwy amrywiol, daeth i'r amlwg fod cyfle i'r holl ddysgwyr - beth bynnag fo eu cefndiroedd ieithyddol - i ymelwa o gymhwyso strategaethau allweddol cyffredin ar draws ieithoedd. Derbynia nifer o ddysgwyr yng Nghymru addysg cyfrwng iaith sydd yn wahanol i iaith y cartref. O ganlyniad, mae cymhwyso strategaethau cyffredin yn fodd o wella'u dealltwriaeth o'u hieithoedd nhw wrth hwyluso dysgu ieithoedd pellach.

### 5. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Wrth adnabod gofynion cyffredin dysgwyr ar draws ieithoedd, ac ar draws ystod o lefelau gallu, mae'r prosiect wedi esblygu i fod yn fenter ar y cyd rhwng yr holl adrannau ieithoedd. Mae hefyd yn gosod y dysgwr yng nghanol y broses ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu pedwar diben y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

## 6. Creadigrwydd

Anogir dysgwyr i arbrofi gyda syniadau ieithyddol newydd, a thrwy hynny, i ennill dealltwriaeth ddyfnach o esblygiad ieithoedd ar hyd y blynyddoedd, a deall sut y byddant yn parhau i esblygu. Mae'r elfen hon yn enwedig o berthnasol o ystyried y cyfnod cyfredol o newid technolegol a globaleiddio.

## 7. Cam nesaf? Y potensial ar gyfer datblygiad/cymhwysiad pellach

Fe allai'r dull hwn o ddysgu ieithoedd gael ei ddatblygu i gefnogi'r holl feysydd cwricwlwm, a hynny thrwy wella safonau oblegid mai gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o iaith yn greiddiol i bob maes dysgu. Ceir ambell syniad am weithredu pellach yng nghorff y ddogfen.

## CRYNODEB O STRWYTHUR Y MODIWL DYSGU

### Cam 1 - Sefydlu dealltwriaeth o esblygiad ieithoedd Indo-Ewropeaidd

Mae gan lawer o ddysgwyr ddealltwriaeth fras o hanes Cymru, Prydain ac Ewrop dros y 2000 mlynedd ddiweddar. Gellir adeiladu a gweithredu ar sail yr ymwybyddiaeth hon i ffocysu ar sut mae ieithoedd wedi benthyg wrth a rhoi geirfa newydd i'w gilydd, gan adael tystiolaeth glir [geiriau a strwythurau] o fewn yr ieithoedd a siaredir heddiw. Mae'r cam hwn wedi'i dreialu yn llwyddiannus ymhlith blynyddoedd 5 a 6 yng nghlwstwr ysgolion cynradd Gwyr, a hefyd ym mlwyddyn 7.

### Cam 2 - Archwilio i debygrwydd a gwahaniaethau rhwng ieithoedd o ganlyniad i'r wybodaeth a drosglwyddwyd yng Ngham 1.

Datblyga Cam 2 ymwybyddiaeth o gysylltiadau rhwng ieithoedd a darpara strategaethau dadansoddi er mwyn canfod a datguddio ystyr. Perthyn 2 elfen i'r cam hwn:


#### A. Cyfansoddiad geiriau unigol

Ffocws Cam 2A yw sut y caiff geiriau eu cyfansoddi, gan gynnwys gwreiddiau cyffredin, rhagddodiaid ac olddodiaid.

#### B. Strwythur brawddeg

Ffocys Cam 2B yw sut y caiff geiriau eu strwythuro a'u defnyddio i gyfleu ystyr, a sut y defnyddir elfennau iaith amrywiol [enw, berf, ansoddair ayyb] ynghyd ag elfennau gramadegol mwy cymhleth.

Dengys y ffigwr isod y berthynas rhwng yr elfennau allweddol:-



Ffigwr: Janette Davies, Anna Vivian Jones, 2018

## CYFLWYNO'R PROSIECT

Dyluniwyd amserlen, lle penodwyd Cam 1 yn briodol fel dechreuad ym mlwyddyn 7. Datblygwyd ar sail hyn gan gyflwyno rhannau amrywiol o Gam 2 yn ystod y misoedd wedi hynny gan ddilyn ymlaen i flynyddoedd 8 a 9.

Cynhyrwyd gwersi a oedd yn gweddu i gynlluniau gwaith yr adrannau priodol, gan gynnig cyddestun byw i'r dysgu a'r addysgu. Penderfynwyd ar y dull hwn o gyflwyno a chyfathrebu'r cynnwys er mwyn annog y dysgwyr i ystyried y broses o ryngweithio gyda'r strategaethau yn rhan annatod o'r broses o ddysgu iaith yn hytrach nag fel elfen ychwanegol a oedd i'w ddysgu ar wahân. Dewiswyd peidio darparu'r holl daflenni gwaith o fewn un llyfryn i'w ddefnyddio o fewn y gwersi. Yn hytrach, mae'r taflenni gwaith i'w cwblhau ac yna eu gludo i lyfrau gwaith y disgyblion.

Ystyriwyd, ar ddechrau pob cam, pa Adran fyddai'n gweddu orau i chwarae **rôl arweiniol** yn y dysgu, gan gynnig felly cyfleoedd i'r adrannau eraill i atgyfnerthu a datblygu'r negeseuon ieithyddol.

Er enghraifft: **Y rhagddodiad**

Cyflwyno hyn ddull cyfannol i'r dysgwyr, gyda'r adrannau oll yn cydweithio er mwyn atgyfnerthu a datblygu'r wybodaeth graidd.

Cynllun gweithredu YGG 2017-18
--------------------------------

2017 2018	MEDI	HYDREF	TACHWEDD	RHAGFYR	IONAWR	CHWEFOR	MAWRTH
ADRAN/BL							
CYMRAEG 7	Elfennau iaith	gwreiddyn geiriau			hanes y Gymraeg		enwau 3
SAESNEG 7	Parts of Speech	blended words ROALD DAHL				nouns 1	
I M 7	Stori Ieithoedd		word roots petaloso		POS dictionary skills		les noms 2
CYMRAEG 8	Posterï Bod				santes dwynwen		
SAESNEG 8	Posters to be				elfennau iaith RECAP		
I M 8	LES VERBES ETRE						
CYMRAEG 9		Rhagddodiad 2				olddodiad	
SAESNEG 9			prefixes		compound nouns Shakespeare	suffixes	
I M 9		les prefixes 1			Elfennau iaith ffrangeg	les suffixes	
allwedd	CAM 1						
	CAM 2A						
	CAM 2B						
	bwriad creu.						

## GWERSI CAM 1

**Cam 1 - Sefydlu dealltwriaeth o esblygiad ieithoedd Indo-Ewropeaidd = sut, beth a pham.**

### Stori Ieithoedd

Gwers 1 o 2 - Stori Ieithoedd

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 7

Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran ITM (ond yn berthnasol i unrhyw adran iaith neu Hanes)

#### **Deunyddiau**



: 1.CAM 1stori ieithoedd



: 1.CAM 1 stori ieithoedd taflen disgybl



: 1.CAM! stori ieithoedd cynllun gwers.

#### **Crynodeb**

Ffocws y wers hon yw'r dylanwad ar yr iaith Saesneg o ganlyniad I fudo a goresgyniad, e.e. y Celtiaid, Sacsoniaid, Llychlynwyr a'r Normaniaid.

Ymchwilia i'r cwestiwn 'Pam fod Saesneg modern wedi'i gyfansoddi o eiriau o wreiddiau amrywiol?'

Cyflwyno'r cysyniad fod ieithoedd Indo-Ewropeaidd yn perthyn a bod dealltwriaeth o un iaith yn gallu gwella dealltwriaeth o iaith arall. e.e. *église, eglwys, ecclesiastical*

#### **Cyfleoedd trawsgwricwlaidd**

- Daearyddiaeth: edrych ar enwau llefydd a nodweddion daearyddol sydd wedi'u cyfeirio atynt gan enw e.e. Penlan, yr afon Avon, Dwfr (Dover)
- Cymraeg: goblygiad treiglo o fewn enwau cyfansawdd [enwau llefydd daearyddol]
- Gwreiddiau Celtaidd i enwau llefydd ym Mhrydain
- Hanes: Ychwanegu elfennau ieithyddol at ddigwyddiadau hanesyddol allweddol. e.e. ymchwilio i'r gwreiddyn 'cent', cant, 100 yn deillio o'r *centurion* (canwriad) Rhufeinig.



## Gwers 2 o 2- Stori Ieithoedd – Persbectif Cymraeg

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 7

Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran Gymraeg

### Deunyddiau



: 2.CAM 1 hanes y Gymraeg



: 2.CAM 1 hanes y Gymraeg taflen disgybl



: 2.CAM 1 hanes y Gymraeg cynllun gwers.

??

## Gwers 3 - Deunyddiau ychwanegol

Cynulleidfa darged: Blynnyddoedd 5,6 a 7

### Deunyddiau



: 1.CAM 1 stori ieithoedd adnoddau ychwanegol

### Crynodeb

Mae'r Pwerbwyt hwn yn gyfuniad o wersi a gyflwynwyd o fewn clwstwr ysgolion cynradd Gwyr. Nid yw'r gwersi oll wedi'u datblygu ond ceir syniadau am ffyrdd o ymchwilio ymhellach i'r testunnau, e.e. misoedd y flwyddyn, dyddiau'r wythnos a rhifau. Mae adnoddau Cam 1 yn ffocysu ar gysylltiadau Celtaidd.

Santes Dwynwen



: 4 CAM 1 Santes Dwynwen

gyfle i'r dysgwyr i brofi cysylltiadau



: 4 CAM 1 Santes Dwynwen taflen disgybl



: 4 CAM1 Santes Dwynwen cynllun gwers.

## GWERSI CAM 2(A)

Archwilio i debygrwydd a gwahaniaethau rhwng ieithoedd o ganlyniad i'r wybodaeth a drosglwyddwyd yng Ngham 1.

### 2A. Cyfansoddiad geiriau

#### Rhagddodiaid

#### Gwers 1 o 3

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 8 neu 9

Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran ITM

#### Deunyddiau



: 1 CAM 2A prefixes IM



: 1 CAM 2A prefixes IM taflen disgybl



: 1 CAM 2A prefixes IM cynllun gwers.



: 1 CAM 2A prefixes test

#### Crynodeb

Ffocws y wers hon ydyw annog ymwybyddiaeth dysgwyr o ragddodiaid a sut y caiff effaith ar ystyr gair, e.e. posibl/amhosibl, dadgysylltu/ailgysylltu. Anogir dysgwyr yn ogystal i ystyried cysylltiadau gydag ieithoedd eraill a sut y defnyddir rhagddodiaid yn rheolaidd i leihau nifer y geiriau crai sydd angen mewn iaith.

Rhoddyd prawf i'r dysgwyr, cyn cyflwyno'r gyfres o wersi, yn seiliedig ar restr o eiriau mewn tair iaith. Fe roddwyd prawf arall yn dilyn y gwersi, a daeth i'r amlwg bod strategaeth i ddadgodio geiriau ym mha bynnag iaith yn gallu cael ei ddefnyddio'n annibynnol gan y dysgwyr.

### Gwers 2 o 3

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 8 neu 9

Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran Gymraeg

#### **Deunyddiau**



: 2 CAM 2A rhagddodiad Cymraeg



: 2 CAM 2A rhagddodiad Cymraeg taflen disgybl



: 2 CAM 2A rhagddodiad Cymraeg cynllun gwers.

#### **Crynodeb**

Ffocws y wers hon ydyw adeiladu ar sail y wybodaeth a ddeillia o'r wers ITM ac edrych yn benodol ar y defnydd o ragddodiad a'i effaith ar dreiglo ail ran y gair. Mae hyn yn annog dysgwyr i ystyried treigladau a chyd-destunau eraill gan wella/atgyfnerthu ei system sillafu.

### Gwers 3 o 3

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 8 neu 9

Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran Saesneg

#### **Deunyddiau**



: 3 CAM 2A prefixes English



: 3 CAM 2A prefixes English taflen disgybl



: 3 CAM 2A prefixes English cynllun gwers.

#### **Crynodeb**

Ffocws y wers hon ydyw adeiladu ar sail y ddwy wers flaenorol a symud y ffocws i ragddodiaid Lladin a Groeg, gan ganiatáu cyfle dadgodio geiriau mwy soffistigedig.

### Adnoddau ychwanegol - cyfleoedd trawsgwricwlaidd

Perthyn set o eirfa pwnc penodol i bob maes cwricwlwm, ac felly gall pynciau eraill elwa o'r math yma o ddull. Mae'r gyfres o wersi yma yn gweddu i anghenion dysgwyr o fewn meysydd eraill yn dda, e.e. Gwyddoniaeth a Daearyddiaeth. Cyflwynwyd fersiwn o'r wers ym Mioleg, a fersiwn mwy estynedig o ddadgodio yn Ffrangeg CA4 a 5.

## Deunyddiau



: 4 CAM 2A decoding strategies French



: 4 CAM 2A prefixes geography/maths



: 4 CAM 2A prefixes science



: 4 CAM 2A prefixes taflen disgybl

Cyflwyno'r topig hwn ei hun fel ffocws priodol i dasgau tanio/cwis gan edrych ar un rhagddodiad / gwreiddyn gair ar y tro ac ymchwilio iddynt mewn amryw ieithoedd.

## Camau pellach

Unwaith bo'r dysgu wedi'i ymsefydlu, gall polisi ysgol gyfan o ddadgodio ystyr annog ac atgyfnerthu annibyniaeth dysgwyr. Rhaid i'r holl staff addysgu fod yn ymwybodol o'r strategaethau a addysgir a defnyddir gan yr adrannau ieithoedd er mwyn gweithredu ar sail hyn o fewn eu meysydd addysgu nhw hefyd.

## Olddodiaid

### Gwers 1 o 1

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 8 neu 9  
Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran Saesneg

### **Deunyddiau**



: 5 CAM 2A suffixes English



: 5 CAM 2A suffixes English taflen disgybl



: 5 CAM 2A suffixes English cynllun gwers.

### **Crynodeb**

Ffocws y wers hon ydyw hybu ac estyn ymwybyddiaeth dysgwyr o olddodiaid a'u heffaith ar ystyr a swyddogaeth ramadegol. Ymwneir ag elfennau gramadegol o Gam 2B [Elfennau iaith] i hwyluso a symleiddio'r dysgu. Cyflwyno gyfle yn ogystal i edrych ar sillafu afreolaidd, e.e. beautiful, restful, beautifully, restfully.

### **Camau pellach**

Teimla'r tîm y byddai'r cynllun yn elwa o edrych ar olddodiaid Cymraeg, Ffrangeg ac ieithoedd eraill a addysgir mewn ysgolion, fodd bynnag nid yw'r gwersi yma wedi'u cynllunio eto.

## Geiriau Cyfansawdd

### Gwers 1 -Geiriau cymysg Roald Dahl

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 7  
Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran Saesneg

### **Deunyddiau**



: 6 CAM 2A blended words English



: 6 CAM 2A blended words English taflen disgybl



: 6 CAM 2A blended words English cynllun gwers.

### **Crynodeb**

Ffocws y wers ydyw cyflwyno'r syniad y gellir cyfuno a chymysgu geiriau i gyfansoddi geiriau newydd, yn yr achos yma mewn modd creadigol a hwylus gan ddilyn esiampl Roald Dahl.

## Gwers 2 - Enwau cyfansawdd - Shakespeare

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 9

Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran Saesneg

### **Deunyddiau**



: 7 CAM 2A compound nouns English



: 5 CAM 2A compound nouns pupil worksheet



: 5 CAM 2A compound nouns lesson plan.

### **Crynodeb**

Ffocws y wers ydyw darganfod y dull ieithyddol a ddefnyddiodd Shakespeare ac ymchwilio i ffyrdd gwahanol o gyfansoddi geiriau cyfansawdd.

## Gwers 3 - Gwreiddiau geiriau PETALOSO

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 7 neu 8

Wedi'i chyflwyno gan: Yr Adran ITM

### **Deunyddiau**



: 8 CAM 2A word roots petalos



: 8 CAM 2A word roots petaloso taflen disgybl



: 8 CAM 2A word roots petaloso cynllun gwers.

### **Crynodeb**

Ffocws y wers hon ydyw gwreiddiau geiriau. Ystyrir gair newydd a gyfansoddodd bachgen 7 mlwydd oed o'r Eidal; 'petaloso'. Mae'r gair bellach wedi'i gynnwys yng ngeiriadur swyddogol Eidaleg ac yn atgof fod iaith yn gyson esblygu i gwrdd â gofynion ei chymdeithas.

## Gweithgaredd ymestynol

Cyfansoddi geiriau newydd er mwyn cwrdd â'r datblygiad technolegol newydd.

## Adnoddau pellach

Cyflwyno unedau ITM gyda thaflen eirfa sydd wedi'i chynllunio i annog disgyblion i chwilio am gysylltiadau cytras. Rhoddir y gair Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg, a gofyn i'r dysgwr i lenwi'r gair cytras [ fel arfer yn Saesneg] a'i gyfieithu i'r Gymraeg.

Er enghraifft:

French	soldat	Boucher	Docteur
English	soldier	Butcher	Doctor
Welsh	milwr	cigydd	meddyg

## Deunyddiau



: 8 CAM 2A vocabulary sheet multilingual

## GWERSI CAM 2(B)

**Archwilio i debygrwydd a gwahaniaethau rhwng ieithoedd o ganlyniad i'r wybodaeth a drosglwyddwyd yng Ngham 1.**

### **2B. Strwythur Brawddeg: Elfennau iaith**

#### **Crynodeb a gwybodaeth bellach**

Nod y dull hwn ydyw cynnig haenau o gymorth ychwanegol i ddysgwyr sydd yn ei gweld hi'n anodd cysylltu gyda meta-iaith. Wrth dreialu, gwelwyd bod rhai dysgwyr yn cofio enw fel 'cylch melyn', ond wrth wneud hynny maent yn dangos eu bod wedi prosesu a chadw ystyr enw.

Mae'r adrannau Cymraeg, Saesneg ac ITM oll wedi mabwysiadu'r **dull cyffredin** hwn, er mwyn denu sylw dysgwyr at debygrwydd rhwng yr ieithoedd.

Mae'n ddull o ddysgu elfennau iaith sydd yn addas i'r dysgwr.

#### **Darpariaeth**

Addysgir y cysyniad o siapau yn ystod tymor cyntaf Blwyddyn 7. Fe gyflwynwyd y cysyniad i ddisgyblion ITM CA4 yn ogystal fel modd o gynorthwyo prosesu ymarferion llenwi bylchau, h.y. mae dealltwriaeth o rôl gair mewn brawddeg yn galluogi dysgwyr i gydnabod y math o air sydd angen yn y bwch.

Gellir labelu rhannau o'r ystafell ddosbarth yn yr iaith darged gan ddefnyddio'r cylch melyn i gynrychioli enw er mwyn ymgorffori'r cysyniad ymhellach.

Cyflwynodd pob adran gyfleoedd i ailymweld a dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr o anodiadau geiriadur [e.e. nm = noun masculine]

#### **Cymhwysiad**

Nodir bod pob lliw a ddefnyddir o fewn y system hon ar gael fel lliw uwcholeuydd. Gellir felly defnyddio uwch-oleuwyr i liwio'r siapau perthnasol yn hytrach na dibynnu ar lungopïo lliw. Dewiswyd siapau sydd yn weddol hawdd eu llunio gan ddysgwyr.



## Dilyniant Gwersi: CAM 2B

### Elfennau Iaith

#### Dilyniant Gwersi Ieithoedd

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 7

Arweinia adran iaith graidd yr ysgol adfywiad o'r hyn a addysgwyd yn yr ysgolion cynradd. Yn YGG, yn hytrach nag un wers, cyflwynwyd cyfres o dasgau 10 munud o hyd ar gyfer pob elfen iaith fel rhan o wersi ac adeiladodd y disgyblion ffeiliau ffeithiau unigol am bob elfen. Cyflwynwyd y siapau a'r lliwiau.

#### **Deunyddiau**

##### Elfennau iaith - deunydd cyflwyno



: 0 CAM 2B Tasg Tanio

Gellir cyfeirio at bosteri ymhob iaith o fewn y dosbarthiadau i gynorthwyo'r gweithgaredd hwn.



: 0 CAM 2B Posters

#### **Gwers 1 o 3 – Elfennau iaith**

Cynulleidfa darged: Yr Adran Gymraeg [yn YGG]

#### **Deunyddiau**



: 1 CAM 2B elfennau iaith



: 1 CAM 2B elfennau iaith taflen disgybl



: 1 CAM 2B elfennau iaith cynllun gwers.

#### **Crynodeb**

Addysgir elfennau iaith allweddol cyfrwng siapau a lliwiau er mwyn eu hadnabod. Datblygir dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y dysgwyr, ac fe atgyfnerthir hyn cyfrwng y gweithgareddau.

**Gwers 1 o 3** – Elfennau iaith – fersiwn Saesneg  
Cynulleidfa darged: Yr Adran Saesneg o fewn ysgol ddi-gymraeg  
Dyma fersiwn Saesneg o'r wers 1CAM2B Elfennau iaith

### Deunyddiau



: 2 CAM 2B Parts of Speech



: 2 CAM 2B Parts of Speech pupil worksheet



: 2 CAM 2B Parts of Speech lesson plan

**Gwers 2 o 3** – Elfennau iaith / Parts of Speech

### Dim deunyddiau

Gall yr ail adran iaith addasu'r wers i gyd-fynd gyda'r cynllun gwaith [e.e. nofel, gwaith creadigol]. Dylai'r athro ddewis darn o destun a chael y dysgwyr i labeli'r brawddegau gan ddefnyddio'r siapau. Nod y gweithgaredd ydyw cael y dysgwyr i ddefnyddio'r un meddylfryd mewn iaith wahanol.

Does dim gwers benodol ar gyfer y broses hon, ond dylai'r ail adran iaith fod yn ymwybodol o'r gwersi sydd wedi'u haddysgu gan yr adran iaith arall a chyfeirio at y gwersi hynny o fewn y wers hon.

**Gwers 3 o 3** – Elfennau iaith  
Cynulleidfa darged: Blwyddyn 9 neu hŷn  
Wedi'i gyflwyno gan: Yr Adran ITM

### Deunyddiau



: 3 CAM 2B elfennau iaith ffrangeg



: 3 CAM 2B elfennau iaith ffrangeg taflen disgybl



: 3 CAM 2B elfennau iaith ffrangeg cynllun gwers.

### Crynodeb

Ffocws y wers hon ydyw strwythur brawddeg a'r rhannau sydd yn cyfansoddi brawddeg er mwyn gwneud penderfyniadau synhwyrol am eiriau coll. Mae'r sgil yma yn hanfodol ar gyfer TGAU a Lefel A ITM.

## Enwau

### Gwers 1 o 1 - Enwau

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 7

Wedi'i gyflwyno gan: Yr Adran Saesneg

### Deunyddiau



: 4 CAM 2B nouns



: 4 CAM 2B nouns pupil worksheet



: 4 CAM 2B nouns lesson plan

### Crynodeb

Ffocws y wers ydyw annog dysgwyr i ystyried pwysigrwydd enwau a'u swyddogaeth o fewn brawddeg.

## Sgiliau Geiriadur

### Gwers 1 o 1 – Sgiliau geiriadur

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 7

Wedi'i gyflwyno gan: Yr Adran ITM

### Deunyddiau



: 5 CAM 2B dictionary skills French

### Crynodeb

Wedi datblygu ymwybyddiaeth o enw yn y wers Saesneg, fe wnaeth yr Adran ITM ffocysu ar y cysyniad o genedl enwau a sut i adnabod hynny cyfrwng anodiadau geiriadur.

### Datblygiad pellach

- Mae angen siâp a lliw ar gyfer rhagddodiad
- Rhannu'r cysyniad gydag adrannau y tu hwnt i'r adrannau iaith, fel eu bod yn cael eu defnyddio wrth gyflwyno terminoleg/geirfa newydd
- Rhannu'r cysyniad gydag ysgolion cynradd sydd yn bwydo

## Y ferf bod / être

### Gwers 1 o 2

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 8

Wedi'i gyflwyno gan: Yr Adran ITM

### Deunyddiau



: 6 CAM 2B être



: 6 CAM 2B être taflen disgybl



: 6 CAM 2B être cynllun gwers



: 6 CAM 2B être qqt



: 6 Poster bod to be être

### Crynodeb

Mae dealltwriaeth flaenorol am ragenwau personol yn hanfodol.

Ffocws y wers ydyw datblygu dealltwriaeth o sut caiff berfenw ei rhedeg yn wahanol yn ddibynnol ar y rhagenw personol. Mae defnyddio tair iaith o fewn y wers yn cynnig sylfaen mwy cadarn i ehangu dealltwriaeth o'r cysyniad.

### Gwers 2 o 2

Cynulleidfa darged: Blwyddyn 8

Wedi'i gyflwyno gan: Yr Adran Cymraeg

### Deunyddiau



: 6 CAM 2B BOD TT Cymraeg

### Crynodeb

Ffocws y wers ydyw atgyfnerthu'r gwers Ffrangeg blaenorol

## **Cyfranwyr y Prosiect**

Anna Vivian Jones ERW

Janette Davies YGG

Sian Brooks UWTSD

Yr Athro Mererid Hopwood

Catrin James

Ceri Griffiths

Catrin Jenkins YGG

Branwen Dafydd YGG

Kate Colwell

Martin Lloyd, Ysgol Uwchradd Llandeilo Ferwallt

Kirsten Thomas Ysgol Uwchradd Llandeilo Ferwallt

Staff adrannau ieithoedd YGG [Cymraeg, Saesneg ac ITM]

Staff ysgolion cynradd clwstwr YGG

Gyda diolch arbennig i Ceri Anwen James am ganiatâd i addasu’i gwaith ar siapau yn cynrychioli elfennau iaith.

### **Adnoddau ychwanegol**

<https://www.youtube.com/watch?v=zz4OvDDws5E>

<https://www.bbc.co.uk/programmes/p026z828>.

<http://mentalfloss.com/article/74782/french-phrases-hidden-english-words>

<https://www.youtube.com/watch?v=gEFF-AFhj1k>